Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad newyddion

Dyddiad: **Dydd Gwener, 9 Mehefin 2017**

Teitl: Cyllid ar gyfer addysg uwch yn 2017/18

Bydd y corff sy'n cyllido ac yn rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru'n neilltuo £99.3 miliwn o arian cyhoeddus i brifysgolion a darparwyr addysg uwch eraill yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae dyraniadau CCAUC ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 fel a ganlyn:

	Y Cyllid Sydd Ar Gael ar gyfer ei Ddyrannu (£M)	
	Blwyddyn Academaidd	
Categori Cyllido	**2016/17**	**2017/18**
Ymchwil	79.2	80.6
Addysgu llawn amser	15.1	15.0
Addysgu rhan amser	26.4	27.0
Cyllid Strategol[1]	31.4	5.2
Dyraniad sylfaen cyn addasiad cyllido	**152.1**	**127.8**
Addasiad Cyllido	-24.5	-28.5
Dyraniad cyllido ar ôl addasiad	**127.6**	**99.3**

[1] Ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 mae hyn yn cynnwys £20M o'r Gronfa Newid Strategol, £5.4M ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac £1.1M o Gyllid Ategol ar gyfer yr Elfen Berfformiad yn y llythyr cylch gwaith adolygedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17.

Mae'r cyllid o £99.3 miliwn yn cael ei ddarparu i gefnogi'r blaenoriaethau strategol canlynol:

Ymchwil

Mae hyn yn cynnwys tair elfen o gyllid, ar gyfer **Ymchwil o Ansawdd, Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd** a chefnogaeth i **raglen Sêr Cymru** Llywodraeth Cymru.

- Seilir cyllid **ymchwil o ansawdd (YA)** ar ganlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF2014), gyda bron i draean yr ymchwil a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru'n cael ei ystyried yn 'flaenllaw yn y byd'. Mae'r cyllid wedi cael ei gyfrif gan ddefnyddio'r un fformiwla â blwyddyn academaidd 2016/17.

- Darperir cyllid **Hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd (HYO)** i gefnogi datblygiad ymchwilwyr sydd â lefel uchel o sgiliau.

- Darperir cyllid **Sêr Cymru** fel cyfraniad CCAUC at y rhaglen hon gan Lywodraeth Cymru a'i hamcan cyffredinol yw darparu buddsoddiad ychwanegol i roi hwb i allu ymchwil mewn meysydd gwyddoniaeth dethol yng Nghymru, a chynyddu lefelau'r incwm grant ymchwil allanol a sicrheir.

Addysgu llawn amser

Darperir mwyafrif y cyllid hwn fel Premiwm Pynciau Drud – adnodd ychwanegol fesul myfyriwr i gefnogi cyrsiau israddedig llawn amser cost uwch mewn meddygaeth, deintyddiaeth a chelfyddydau perfformio. Mae'r premiwm wedi cael ei gadw ar yr un lefel â'r llynedd. Mae gweddill y ddarpariaeth yn cynnwys cyllid y pen sy'n berthnasol i fyfyrwyr israddedig /TAR ac Ôl-radd a addysgir llawn amser.

Addysgu rhan amser

Mae mwyafrif y cyllid hwn wedi'i fwriadu ar gyfer darparu cymhorthdal i helpu i sefydlogi cost cyrsiau rhan amser i fyfyrwyr. Mae'n cynnwys cyllid premiwm (ategol) i gydnabod llwyddiannau darparwyr wrth recriwtio a chadw myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig, myfyrwyr anabl a'r rhai sy'n derbyn eu hyfforddiant yn y Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys cyllid y pen i gefnogi darpariaeth ôl-radd ran amser a addysgir.

Cyllid strategol

Mae symiau amrywiol o gyllid yn cael eu darparu i gefnogi nifer o fentrau pwysig yn strategol, gan gynnwys Ymgyrraedd yn Ehangach, y Gronfa Dysgu ac Addysgu a GO Wales.

Addasiadau cyllid blwyddyn academaidd 2017/18

Ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18, mae gostyngiad cyllido net o £28.5m wedi gorfod cael ei weithredu o gymharu â'r dyraniadau sylfaen gwreiddiol er mwyn caniatáu ar gyfer y gyllideb is sydd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.

Mae'r addasiad cyllido gofynnol ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 wedi cael ei gyfrif ar gyfer pob sefydliad drwy ddefnyddio gostyngiad pro-rata ar draws cyfanswm eu cyllid ar gyfer ymchwil o ansawdd, ymchwil ôl-radd, addysgu rhan amser ar sail credyd a'r Premiwm Pynciau Drud. Mae'r dull hwn o weithredu'n adlewyrchu barn Cyngor CCAUC, a Llywodraeth Cymru, bod pob un o'r meysydd hyn yn teilyngu blaenoriaeth

strategol gyfartal. Fodd bynnag, rhaid i bob darparwr addysg uwch unigol benderfynu sut i weithredu'r gostyngiadau cyllido yn eu sefydliadau eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu gweithredu o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen argymhellion Adroddiad Adolygiad Diamond a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016 (http://gov.wales/docs/dcells/publications/161117-response-to-recommendations-en-v2.pdf). Cadarnhaodd hefyd yn llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2017-18 y gellir disgwyl i setliadau ariannol yn y dyfodol ar gyfer CCAUC gynyddu ym mhob blwyddyn ariannol am oes Llywodraeth bresennol y Cynulliad. O ganlyniad, mae disgwyl i'r angen am wneud addasiad cyllido i ddyraniadau eleni fod yn fesur tymor byr.

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC:

"Mae ein dyraniadau cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 yn adlewyrchu'r ffaith bod CCAUC wedi gorfod ymateb i ostyngiadau sylweddol yn yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael am ddwy flynedd academaidd yn olynol. Fodd bynnag, rhaid edrych ar y gostyngiadau hyn yng nghyd-destun ehangach y newidiadau i falans yr incwm yn y maes addysg uwch yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hefyd o ran y pontio at drefn gyllido newydd, fel y cyhoeddwyd eleni gan Lywodraeth Cymru yn ei hymateb i Adolygiad Diamond.

"Ers cyflwyno'r drefn ffioedd a chyllid adolygedig, mae cyllid CCAUC wedi cynrychioli cyfran lai o gyfanswm incwm darparwyr addysg uwch. Roedd cyllid CCAUC yn cynrychioli ychydig llai na 10% o gyfanswm incwm darparwyr addysg uwch Cymru ym

mlwyddyn academaidd 2015/16, a bydd y gyfran hon yn parhau i ostwng erbyn blwyddyn academaidd 2017/18 o ganlyniad i ostyngiadau yng nghyllid CCAUC. Yn ychwanegol at dderbyn ffioedd hyfforddi o hyd at £9,000 ar gyfer pob myfyriwr israddedig sy'n cael ei recriwtio o Gymru, gweddill y DU a'r UE, mae incwm darparwyr addysg uwch hefyd yn adlewyrchu eu llwyddiant o ran sicrhau enillion ychwanegol o grantiau cystadleuol, amrywiaeth o weithgareddau masnachol a recriwtio myfyrwyr rhyngwladol.

"Yn gynharach eleni, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i weithredu o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen, gyda dim ond mân addasiad, y gyfres lawn o gynigion yn Adroddiad Adolygiad Diamond a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen i gynorthwyo gyda gweithredu'r diwygiadau newydd hyn. Yn benodol, rydym yn croesawu'r cadarnhad a gafwyd yn ein llythyr cylch gwaith ar gyfer 2017-18 y byddai gweithredu cynigion Diamond yn gynnar yn cael ei sicrhau heb effaith negyddol ar y gyllideb addysg uwch, ac y gall CCAUC ddisgwyl i'w setliadau ariannol yn y dyfodol gynyddu ym mhob blwyddyn ariannol am oes Llywodraeth bresennol y Cynulliad.

"Mae gwariant y Llywodraeth ar addysg uwch yn fuddsoddiad gwerthfawr yn nyfodol Cymru. Mae darparwyr addysg uwch yn gyflogwyr, addysgwyr, dylanwadwyr a buddsoddwyr, ac mae eu llwyddiant yn rhan hanfodol o genedl gadarn a ffyniannus. Yn ysbryd y gred hon, rydym yn parhau i fuddsoddi yr adnoddau sydd ar gael i ni mewn meysydd blaenoriaeth a fydd, gobeithio, yn cefnogi'r maes addysg uwch yng Nghymru i adeiladu ar ei berfformiad rhagorol ym maes ymchwil ac arloesi, gan barhau i ddarparu

profiad o ansawdd uchel i fyfyrwyr, profiad sydd ar gael i bawb ac sy'n creu graddedigion hynod fedrus a chyflogadwy."

Diwedd

Tablau isod (o gylchlythyr llawn W17/11HE)

Tabl 1 Dyraniadau cyllido cyffredinol ar gyfer 2017/18

Mae'r dyraniadau sydd wedi'u cyflwyno yn Nhabl 1 wedi'u strwythuro i ddangos y canlynol:

- Y cyllid sylfaen a fodelwyd yn wreiddiol ar gyfer ei ddyrannu i bob maes blaenoriaeth strategol, cyn gweithredu'r addasiad cyllido. Mae'r dyraniad sylfaen yn adlewyrchu'r sefyllfa gyllido y mae Cyngor CCAUC yn disgwyl cael dychwelyd ati cyn dechrau ar gynigion Diamond ar gyfer buddsoddiad ychwanegol.

- Llinell addasiad gyllidebol sengl o £28.5m, fel balans yn ôl i'r gyllideb o £99.3m sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn.

Tabl 6 Cymharu cyllid blwyddyn academaidd 2016/17 a blwyddyn academaidd 2017/18

Cyswllt: Dale Hall

dale.hall@CCAUC.ac.uk

029 2085 9665.

Isod: Gwybodaeth o'r cylchlythyr (W17/11HE) – yn Saesneg yn unig.

Overall Funding Allocations 2017/18					**Table 1**
	FY	**AY**	**FY**	**AY**	**FY**
	2016-17	**2016/17**	**2017-18**	**2017/18**	**2018-19**
	£	**£**	**£**	**£**	**£**
Grant In Aid (GIA) FY allocation [1]	355,318,000		104,056,000		115,000,000
Less - Fee grant transfer	-257,800,000				
Budget Adjustments [2]	24,178,335		-3,665,000		
Less - Depreciation	-82,000		-90,000		-90,000
Less - Running Costs	-3,296,540		-3,407,432		-3,640,507
Contribution from prior year reserves	805,540				
	119,123,335		**96,893,568**		**111,269,493**
50.7% of 2017-18				49,135,407	
45% of 2018-19				50,071,272	
		124,785,836		**99,206,679**	
Cash Balance brought forward from previous year		**3,851,573**		**1,050,966**	
Available Resource for Allocation		**128,637,409**		**100,257,645**	
Research					
Quality Research (QR)		71,077,344		71,077,344	
Postgraduate Research (PGR)		5,170,336		5,170,336	
Sêr Cymru		2,961,253		4,317,696	
		79,208,933		**80,565,376**	
Part-time Undergraduate (PT UG) Funding					
PT UG Teaching		21,487,583		20,244,374	
Per capita		116,120		107,080	
Welsh Medium premium		130,562		204,432	
Access and Retention premium		5,311,812		5,233,186	
Disability premium		195,900		156,900	
Total		**27,241,977**		**25,945,972**	
OU Mitigation funding		**1,655,490**		**1,655,490**	
PT adjustment for under recruitment in 14/15 and 15/16		**-2,620,062**		**-857,956**	
Part-time Fee Waiver		**30,000**		**150,000**	
Postgraduate Taught (PGT) Funding					
Per capita PT		40,025		38,830	
Per capita FT		17,200		17,525	
Disability premium PGR		27,000		30,000	
Total		**84,225**		**86,355**	
Full-time Undergraduate (FT UG) and Postgraduate Certificate of Education (PGCE) funding					
Per capita		327,815		334,850	
Expensive subjects premium		14,754,735		14,637,880	
Total		**15,082,550**		**14,972,730**	
Strategy and Initiative Allocations					
including:					
Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC)		5,435,549		0	
Supplementary funding to support Expensive Subjects Premium (ESP) performance arts training		1,100,000		0	
Reaching Wider		1,731,920		1,864,089	
GO Wales		420,000		900,000	
Strategic Development Fund		21,349,649		906,000	
Learning and Teaching Fund		627,014		780,879	
Widening Access Fund		128,501		0	
Other Strategy and Initiatives		607,853		838,043	
Total		**31,400,486**		**5,289,011**	
Sector Agency Contribution					
Jisc		2,001,470		2,001,470	
L&T Fund Sector Agency Contribution -					
- *NSS*		155,000		155,000	
- *Wise Wales*		20,000		20,000	
Equality Challenge Unit		61,987		61,987	
International Initiatives		80,364		80,364	
Leadership Foundation		40,000		40,000	
National Coordinating Centre for Public Engagement (NCCPE)		6,201		5,893	
RCUK Vitae		1,235		2,437	
The Conversation		30,000		15,000	
National Council for Universities and Business (NCUB)		30,000		30,000	
HEI contribution to sector agency costs		-2,423,413		-2,412,151	
Total		**2,844**		**0**	
Adjustment as a result of changes to HEFCW budget		**-24,500,000**		**-28,500,000**	
Total Allocations		**127,586,443**		**99,306,978**	
Balance		1,050,966		950,667	
NOTES					
1 - GIA details taken from remit letters (all non-GIA items, including CCC Scholarships are now in separate non-GIA budget)					
2 - Budget Adjustments are: 2016-17, £20m Strategic change fund and £4.178m in additional resources in revised remit letter; in 2017-18, £3.665m SLC contribution expectation					

Table 6: Funding comparison AY 2016/17 and AY 2017/18

HE institutions	Allocations 2016/17 [1] (£)										Allocations 2017/18 [1] (£)									Change 2016/17 to 2017/18	Percentage change 2016/17 to 2017/18
	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Strategic Change fund (£)	Total 2016/17 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2016/17 with funding adjustment[4] (£)**	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Total 2017/18 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2017/18 with funding adjustment[4] (£)**		
University of South Wales	6,514,654	1,856,848	1,785,180	1,530,192	134,671		1,760,000	13,581,545	-2,155,867	**11,425,678**	5,927,310	1,730,735	1,846,560	1,530,192	140,130		11,174,927	-2,405,468	**8,769,459**	-2,656,219	-23%
Aberystwyth University	525,507	72,745	33,835	7,010,422	389,820		1,409,000	9,441,329	-1,726,204	**7,715,125**	469,871	62,518	31,065	7,010,422	372,155		7,946,032	-2,013,812	**5,932,220**	-1,782,905	-23%
Bangor University	292,262	69,285	30,070	7,218,736	578,720		1,440,000	9,629,073	-1,761,916	**7,867,157**	292,275	52,799	31,375	7,218,736	536,966		8,132,151	-2,063,956	**6,068,195**	-1,798,962	-23%
Cardiff University	1,214,158	479,876	10,587,350	39,796,996	2,946,699		9,685,000	64,710,079	-11,864,204	**52,845,875**	1,095,874	391,966	10,595,560	39,796,996	2,995,943		54,876,340	-13,953,907	**40,922,433**	-11,923,442	-23%
University of Wales Trinity Saint David	2,653,859	477,646	30,785	298,936	8,028		523,500	3,992,754	-644,858	**3,347,896**	2,634,856	508,043	30,585	298,936	7,297		3,479,717	-754,262	**2,725,455**	-622,441	-19%
Swansea University	699,523	432,596	2,563,900	13,749,083	1,008,299		3,200,000	21,653,401	-3,915,315	**17,738,086**	699,532	397,376	2,384,575	13,749,083	1,044,951		18,275,517	-4,572,068	**13,703,449**	-4,034,637	-23%
Cardiff Metropolitan University	458,723	135,657	35,530	1,065,119	104,099		289,000	2,088,128	-354,561	**1,733,567**	414,827	140,315	36,990	1,065,119	72,893		1,730,144	-398,236	**1,331,908**	-401,660	-23%
Wrexham Glyndŵr University	2,632,935	280,366	13,415	214,955			509,000	3,650,672	-620,262	**3,030,410**	2,264,986	541,603	13,320	214,955			3,034,865	-635,997	**2,398,868**	-631,542	-21%
Open University in Wales	6,001,447	1,878,630				1,655,490	1,067,000	10,602,567	-1,307,097	**9,295,470**	6,001,602	1,799,374				1,655,490	9,456,466	-1,539,150	**7,917,316**	-1,378,154	-15%
Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies				192,904			34,000	226,904	-42,014	**184,890**				192,904			192,904	-49,471	**143,433**	-41,457	-22%
Total [4]	**20,993,068**	**5,683,648**	**15,080,065**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**19,916,500**	**139,576,451**	**-24,392,298**	**115,184,153**	**19,801,134**	**5,624,728**	**14,970,030**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**118,299,061**	**-28,386,327**	**89,912,734**	**-25,271,419**	**-22%**

FE Institutions	Allocations 2016/17 [1] (£)										Allocations 2017/18 [1] (£)									Change 2016/17 to 2017/18	Percentage change 2016/17 to 2017/18
	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Strategic Change fund (£)	Total 2016/17 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2016/17 with funding adjustment[4] (£)**	PT UG credit based funding (£)	PT and PGT per capita and premium funding[2] (£)	FT UG/PGCE per capita and premium funding[3] (£)	QR (£)	PGR (£)	Mitigation funding[5] (£)	Total 2017/18 (£)	Funding adjustment (£)	**Total 2017/18 with funding adjustment[4] (£)**		
Grŵp Llandrillo Menai	436,979	119,848	2,345				77,000	636,172	-95,173	**540,999**	385,704	137,517	2,460				525,682	-98,916	**426,766**	-114,233	-21%
Grŵp NPTC Group	44,189	12,024	140				8,000	64,353	-9,624	**54,729**	44,189	10,426	240				54,855	-11,333	**43,522**	-11,207	-20%
Gower College Swansea	13,347	23,099					2,300	38,746	-2,907	**35,839**	13,347	15,282					28,629	-3,423	**25,206**	-10,633	-30%
Total [4]	**494,515**	**154,971**	**2,485**	**0**	**0**	**0**	**87,300**	**739,271**	**-107,704**	**631,567**	**443,240**	**163,225**	**2,700**	**0**	**0**	**0**	**609,166**	**-113,672**	**495,494**	**-136,073**	**-22%**
Total HEIs and FEIs [4]	**21,487,583**	**5,838,619**	**15,082,550**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**20,003,800**	**140,315,722**	**-24,500,002**	**115,815,720**	**20,244,374**	**5,787,953**	**14,972,730**	**71,077,344**	**5,170,336**	**1,655,490**	**118,908,227**	**-28,499,999**	**90,408,228**	**-25,407,492**	-22%

[1] Allocations shown here place ITT (QTS) provision at the delivering institution.
[2] Premiums consist of the access and retention premium (PT UG), the Welsh medium premium (PT UG) and the disability premium (PT UG and PGR).
[3] FT UG/PGCE premium allocation is the expensive subjects premium.
[4] Totals may not sum exactly due to rounding.
[5] Mitigation funding is allocated to the Open University in Wales because of their unique position in receiving part-time funding only and no income from increased full-time fees under the new regime. See paragraphs 54 to 57 of the circular text.

Nodiadau technegol

1. Gwelir y dyraniadau llawn ar wefan CCAUC o dan Cyhoeddiadau – Cylchlythyrau – Dyraniadau Cyllido CCAUC 2017/18 (Cylchlythyr W17/11HE).

Cyllideb ac addasiadau cyllido Llywodraeth Cymru

2. Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu ei chyllideb i ni ar sail blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, rydym yn dosbarthu cyllid yn ôl blwyddyn academaidd. Gall dyraniadau i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach gael eu haddasu yn ystod y flwyddyn os bydd ein cyllideb ni gan Lywodraeth Cymru yn newid.

3. Dynododd cylchlythyr y llynedd i gyhoeddi'r dyraniadau cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 (W16/16HE) mai dros dro oedd y dyraniadau oherwydd y posibilrwydd o addasiadau yn ystod y flwyddyn. Derbyniodd CCAUC lythyr cylch gwaith adolygedig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 ym mis Hydref 2016, a llythyr cylch gwaith adolygedig arall wedyn ym mis Mawrth 2017, ac roedd y ddau'n cynnwys nifer o addasiadau cyllido i gyllideb blwyddyn ariannol 2016-17. Arweiniodd rhai o'r addasiadau hyn at drosglwyddo cyllid o CCAUC i Lywodraeth Cymru i dalu am wariant gofynnol ychwanegol ar y Grant Ffioedd Hyfforddi, a darparodd addasiadau eraill gyllid ychwanegol i CCAUC i roi sylw i flaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru *(ceir manylion pellach ym mharagraffau 8 -12 cylchlythyr Dyraniadau Cyllido 2017/18, W17/11HE).* Effaith net y newidiadau hyn yn ystod y flwyddyn oedd gostyngiad cyffredinol o £24.5m yn y cyllid yn erbyn dyraniadau gwreiddiol blwyddyn academaidd 2016/17.

4. Seilir y gyllideb ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 ar gyfran o'r gyllideb sydd wedi'i chadarnhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, a chyfran o'r gyllideb ddynodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Cyfanswm y dyraniad cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 yw £99.3 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad net o £28.5m yn y cyllid o gymharu â'r dyraniadau wedi'u haddasu ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17.

5. Mae'r addasiad cyllido wedi cael ei wneud drwy weithredu gostyngiad pro-rata ar draws ymchwil o ansawdd, ymchwil ôl-radd, addysgu rhan amser ar sail credyd a'r Premiwm Pynciau Drud. Mae'r dull hwn o weithredu'n adlewyrchu barn Cyngor CCAUC,

a Llywodraeth Cymru, bod pob un o'r meysydd hyn yn teilyngu blaenoriaeth strategol gyfartal.

6. Nid yw'r dyraniadau cyllido yn y datganiad i'r wasg hwn a'r cylchlythyr cysylltiedig yn adlewyrchu unrhyw addasiadau cyllid posib a wneir yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i gyllideb CCAUC ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Os gwneir unrhyw addasiadau cyllid o'r fath yn ystod y flwyddyn, byddant yn arwain at adolygu'r dyraniadau unigol ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18. Hefyd, os yw cyllideb blwyddyn ariannol 2018-19 yn wahanol i swm tybiedig y dyraniad hwn, bydd effaith ar yr adnoddau sydd ar gael ym mlwyddyn academaidd 2017/18 a'r dyraniadau cysylltiedig.

7. Mae llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2017-18 yn datgan y gellir disgwyl i setliadau ariannol yn y dyfodol ar gyfer CCAUC gynyddu ym mhob blwyddyn ariannol am oes Llywodraeth bresennol y Cynulliad

Dyraniadau cyllido a blaenoriaethau

8. Mae cyllid CCAUC o £99.3 miliwn i ddarparwyr addysg uwch ar gyfer ymchwil ac addysgu'n parhau i gael ei ddyrannu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae CCAUC yn targedu gweithgareddau (fel gwarchod y ddarpariaeth ran amser, gwobrwyo rhagoriaeth ym maes ymchwil a recriwtio a chadw myfyrwyr o gefndiroedd cyfranogiad isel) na fyddai system gyllido sy'n dibynnu ar ffioedd hyfforddi israddedig llawn amser yn unig yn eu cyflawni.

9. Yn benodol, mae CCAUC yn targedu cyllid yn y meysydd canlynol:

- Cyllid ymchwil o ansawdd (YA), sy'n canolbwyntio ar gefnogi ymchwil ar y lefelau uchaf o ran perfformiad, er mwyn cynnal gallu cystadleuol Cymru ar lefel flaenllaw.
- Gwarchod, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, y cyllid addysgu israddedig rhan amser ar lefel sector. Mae CCAUC yn parhau i gyllido drwy gyfrwng y dull cyllido seiliedig ar gredydau ar gyfer cyrsiau rhan amser ym mlwyddyn academaidd 2017/18.
- Mae CCAUC yn parhau i dalu premiwm pynciau drud cyfradd uwch ar lefelau 2016/17 ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser ym maes meddygaeth glinigol/

deintyddiaeth a chelfyddydau perfformio conservatoire. Mae hyn yn ychwanegol at y ffioedd o £9,000 y myfyriwr y mae sefydliadau'n eu derbyn ar gyfer y cyrsiau hynny. Mae taliad uchafswm yn berthnasol i ddyraniadau ar gyfer pynciau drud, yn seiliedig ar gwotâu neu drefniadau cyllido y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Mae'r cyfuniad o £9,000 o ffioedd a hefyd ein premiwm pwnc drud yn darparu adnoddau fesul myfyriwr sy'n gymharol â'r symiau a ddarparwyd yn 2011/12 (ar ôl ystyried addasiadau enillion effeithlonrwydd). Y premiwm hwn yw'r unig gyllid sydd ar gael erbyn hyn ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR llawn amser drwy ddyraniadau cyllido CCAUC, ar wahân i gyllid "y pen" o £5 am bob myfyriwr sydd wedi cofrestru.

Cyllido Ymchwil o Ansawdd

10. Mae'r cyllid ar gyfer ymchwil o ansawdd (YA) yn ystyried ansawdd a swm yr ymchwil yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mae mwy o wybodaeth am gyllid ymchwil ar gael ar ein gwefan ni: www.hefcw.ac.uk/policy_areas/research/funding_research.aspx

11. Mae dyraniadau YA blwyddyn academaidd 2017/18 fesul prifysgol i'w gweld yn Nhabl 2 y cylchlythyr ac maent yn seiliedig ar yr un fformiwla â blwyddyn academaidd 2016/17.

12. Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF2014) yw'r system ledled y DU ar gyfer asesu ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch yn y DU gan ddefnyddio panelau o arbenigwyr mewn meysydd pwnc academaidd unigol sy'n asesu ansawdd, effaith ac amgylchedd cyflwyniadau ymchwil sefydliadau. Mae'n cael ei gynnal ar y cyd gan y pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU. Cwblhawyd y Fframwaith cyntaf yn 2014 (gan gymryd lle'r Ymarfer Asesu Ymchwil blaenorol). www.ref.ac.uk/

13. Mae Tabl 6 yn cymharu â dyraniadau cyllido mynych blwyddyn academaidd 2016/17 fesul sefydliad.

Cyllid strategol

14. Mae CCAUC wedi monitro effaith gyffredinol ein gostyngiadau cyllido ar y Brifysgol Agored yng Nghymru, gan nad oes gan y Brifysgol Agored unrhyw incwm o

ffioedd israddedig llawn amser (na chyrsiau ôl-radd llawn amser) i wneud iawn am unrhyw ostyngiadau mewn llinellau cyllidebol eraill. Eleni bydd CCAUC yn darparu cyllid o £1.655 miliwn i'r Brifysgol Agored, yr un swm ag a roddwyd y llynedd, i gydnabod y cyllid strategaeth sydd wedi'i golli, y cyllid premiwm sydd wedi'i golli a'r cyllid ôl-radd rhan amser sydd wedi'i golli.

15. Mae'r rhestr o fuddsoddiadau cyllid strategol yn Nhabl 1 yn adlewyrchu y bydd Llywodraeth Cymru, o flwyddyn ariannol 2017-18 ymlaen, yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Am CCAUC

16. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.